Tomorrow's Engineers

# Beth yw peirianneg?



# Swyddi cyffrous…
# …sy'n gwneud gwahaniaeth

**Mae peirianneg yn defnyddio mathemateg, gwyddoniaeth – yn enwedig ffiseg – a phynciau fel dylunio a thechnoleg, cyfrifiadura, electroneg ac adeiladu, i wella'r byd o'n cwmpas.**



**Mae gwaith peirianwyr yn effeithio ar bobl yn eu biliynau. Mae'n greadigol ac yn ymarferol. Mae'n datrys problemau, yn dylunio pethau ac yn gwella pethau.**



Fel peiriannydd, gallech chi fynd i'r afael â rhai o broblemau mwya'r byd – o ddelio â seiberddiogelwch, a sicrhau dŵr glân a chyflenwadau ynni i ddod o hyd i ffyrdd cynaliadwy o dyfu bwyd, adeiladu tai a theithio.

Gallech fod yn gweithio gyda deunyddiau, cemegion a thechnoleg newydd i ddylunio dillad chwaraeon, cadw bwyd am gyfnod hir a chreu'r cynhyrchion gofal croen diweddaraf. Gallech chi hyd yn oed fod yn rhan o dîm sy'n dylunio ceir di-yrrwr, robotiaid llawfeddygol neu systemau synhwyro daeargrynfeydd.

**Beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd – cerddoriaeth neu fywyd gwyllt, gofod neu gemau cyfrifiadurol, mae yna wledd o bosibiliadau gan fod yna sawl gwahanol fath o beirianneg. Gallech chi deithio'r byd, cyfarfod pobl ddiddorol a helpu i achub a gwella bywydau pobl.**

**Mae peirianneg yn rhan o bopeth – o'ch ffôn deallus a chynhyrchion steilio gwallt i'r goleuadau rydych chi'n eu troi ymlaen a'r esgidiau am eich traed. Felly, os ydych chi'n mwynhau gwyddoniaeth, mathemateg, dylunio a thechnoleg neu gyfrifiadura yn yr ysgol, gallech chithau hefyd fod yn dylunio technoleg arloesol neu'n darparu dŵr i wledydd sy'n dioddef sychder.**



Christina, Peiriannydd Strwythurol

# Sut ydych chi ar eich ennill?

## Gall peirianwyr ar bob lefel ennill cyflog da a chael gyrfa wych.

Mae pobl sy'n graddio o'r brifysgol gyda graddau mewn peirianneg neu dechnoleg yn ennill tua 10% yn fwy bob blwyddyn na chyflog cyfartalog graddedigion a gallan nhw ddisgwyl  ennill tipyn mwy gydol eu hoes na graddedigion o'r rhan fwyaf o bynciau eraill.

Mae cyflogwyr ym maes peirianneg yn tueddu i dalu cryn dipyn mwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer prentisiaid.

Hefyd, mae'r gobeithion o ddod o hyd i waith a pharhau i weithio yn dda iawn. Mae meysydd newydd fel technoleg gofod a lloeren, peirianneg feddygol, gweithgynhyrchu uwch ac ymgyngoriaethau dylunio ynghyd â swyddi 'gwyrdd' ym meysydd ynni adnewyddadwy, tanwyddau amgen, yr economi carbon isel ac ynni niwclear newydd yn golygu bod dyfodol disglair i beirianwyr.


Mae'r gallu i feddwl yn greadigol a datrys problemau ymarferol – ynghyd â sgiliau eraill fel gwaith tîm, arwain prosiectau, rheoli cyllidebau a chyfathrebu – yn gwneud peirianwyr yn gyflogadwy iawn mewn sawl diwydiant.

## Swydd go iawn:

**Roma**, Peiriannydd Strwythurol, CEng (drwy'r brifysgol)



"Os ydych chi'n dda am ddatrys problemau, gallwch chi fod yn beiriannydd."



# Camu i fyd peirianneg...

## Ysgol

Gwyddoniaeth (Ffiseg), Mathemateg, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadura, Cemeg

## Chweched Dosbarth/AB

Lefel A / Lefel T / Highers / IB / BTEC / TechBacc /HNC / HND / Gradd Sylfaen

## Gradd Prifysgol

Baglor BEng / BSc
Meistr (MEng)

## Prentisiaethau

On-the-job training

Canolradd / Uwch (Advanced) / Uwch (Higher) / Prentisiaeth Gradd
Ennill wrth ddysgu
e.e. NVQ / SVQ / BTEC

## Gwaith

# Llwybrau i beirianneg...

## 11 i 16

### Yn yr Ysgol

Bydd astudio gwyddoniaeth – yn enwedig ffiseg – a mathemateg yn yr ysgol yn rhoi cychwyn cadarn i chi. Gall dylunio a thechnoleg, cyfrifiadura a chemeg fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai mathau o beirianneg hefyd. Mae'r pynciau hyn yn cynnig rhai o'r sgiliau mae peirianwyr yn eu harfer ac maen nhw'n sail wych i brentisiaethau mewn peirianneg, adeiladu, gweithgynhyrchu a TG; cyrsiau coleg; graddau prifysgol neu swyddi.

### Profiad Gwaith

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn beiriannydd, beth am geisio cael profiad gwaith yn ystod gwyliau'r ysgol/coleg? Mae rhai prifysgolion yn gofyn am brofiad gwaith fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer eu cyrsiau peirianneg bellach. Felly beth am achub y blaen?!

Gall fod yn anodd dod o hyd i brofiad gwaith, felly ewch ati i chwilio cyn gynted â phosib i osgoi cael eich siomi. Ewch i'r adran 'work experience' ar wefan Tomorrow's Engineers am gyngor ar ble i ddechrau chwilio.







## 16+

### Mae sawl llwybr gwahanol i faes peirianneg; dewiswch y llwybr gorau i chi.

- Prentisiaethau
- Lefel A / Lefel T / Highers / IB / TechBacc
- Cymwysterau galwedigaethol
- Prifysgol

# Prentisiaethau

Mae prentisiaethau yn eich galluogi i ennill arian, gan gyfuno hyfforddiant yn y swydd gydag astudio. Mae prentisiaethau ar gael ar lefelau gwahanol - mae'r rhai uwch a lefel gradd yn tueddu i gynnwys graddau prifysgol yn elfen ddysgu eu rhaglenni a gallant arwain ymlaen at gofrestriad proffesiynol. Mae'r cyfuniad o gymwysterau a phrofiad yn y gweithle yn gwneud prentisiaeth yn ddewis deniadol i gyflogwyr sydd am recriwtio pobl â sgiliau ymarferol profedig.

Fel rheol, byddwch angen o leiaf bum TGAU (neu gyfwerth), yn cynnwys Saesneg, mathemateg a phynciau gwyddoniaeth neu dechnoleg, yn aml ar raddau 9 i 4 (A* i C) oherwydd bod cystadlu brwd am leoedd.

Mae yna lawer o wahanol fathau o brentisiaethau ym maes peirianneg, adeiladu, gweithgynhyrchu a TGCh yn arwain at swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau, yn cynnwys trafnidiaeth, iechyd, bwyd, technoleg ddigidol, adeiladu, dylunio a phŵer.

Bydd tua 2.65 miliwn o swyddi peirianneg ar gael erbyn 2024, a bydd prentisiaeth yn llwybr at lawer ohonyn nhw.

**Gallwch ddysgu mwy am brentisiaethau yma:**

- Os ydych chi'n byw yng Nghymru
  **www.gyrfacymru.com**
- Os ydych chi'n byw yn yr Alban
  **www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships**
- Os ydych chi'n byw yn Lloegr
  **www.getingofar.gov.uk**
- Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon
  **www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships**

I wybod mwy am Dechnegwyr Peirianneg, ewch i: **www.engtechnow.com**

# Lefel A / Lefel T Highers / IB

Drwy barhau â phynciau perthnasol ar ôl eich TGAU (neu gyfwerth), gallech symud ymlaen i gwrs gradd peirianneg yn y brifysgol neu Brentisiaeth Uwch (Higher) mewn peirianneg, gweithgynhyrchu neu TG.

Mae pynciau pwysig yn cynnwys mathemateg a ffiseg. Gallech fod angen cemeg ar gyfer rhai graddau peirianneg, fel peirianneg gemegol neu fiofeddygol. Mae pynciau eraill defnyddiol ar gyfer graddau peirianneg yn cynnwys: dylunio a thechnoleg, cyfrifiadura a mathemateg bellach.

# Cymwysterau galwedigaethol

Enw arall ar y rhain yw lefel tech – neu lefel T – ac maen nhw'n cynnwys cymwysterau fel BTEC ac NVQ mewn peirianneg, adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a TGCh.

Mae cyrsiau galwedigaethol yn eich paratoi ar gyfer swydd, diwydiant neu sector penodol. Maen nhw'n aml yn ymarferol iawn eu natur a gallent gynnwys aseiniadau gwaith cwrs sy'n ymwneud â sefyllfaoedd gwaith go iawn - yn ogystal â chysylltiadau â chyflogwyr. Gallant arwain at brentisiaethau uwch (Advanced a higher) a'r brifysgol.

## Y Brifysgol

Ar ôl cwblhau'ch lefel A, lefel T, IB, Highers, BTEC Lefel 3 neu gyfwerth, gallech benderfynu fynd ymlaen i astudio peirianneg yn y brifysgol. Mae cyrsiau gradd (BEng) yn para 3 i 4 blynedd gan amlaf ac mae cyrsiau Meistr (MEng) yn para 4 i 5 mlynedd. Mae rhai cyrsiau'n cynnwys blwyddyn yn gweithio mewn diwydiant, neu flwyddyn dramor. Mae'r profiad ychwanegol a gewch drwy wneud hyn yn gallu bod yn fuddiol iawn wrth chwilio am waith.

Gall myfyrwyr astudio gradd gyffredinol mewn peirianneg neu gallant ddewis math penodol o beirianneg, er enghraifft, peirianneg sifil, peirianneg electronig, peirianneg ddylunio, peirianneg fecanyddol neu un o'r sawl math arall o beirianneg!

Bydd angen i chi fod wedi astudio mathemateg a ffiseg gan amlaf (neu gemeg ar gyfer peirianneg gemegol a biofeddygol), neu gwrs galwedigaethol cysylltiedig i Lefel 3, er mwyn ymgeisio am raddau peirianneg yn y brifysgol.

## Cymorth ariannol

Mae prifysgolion yn cynnig bwrsarïau ac ysgoloriaethau i helpu gyda chostau astudio. Mae rhai sefydliadau peirianneg proffesiynol a chyflogwyr yn cynnig ysgoloriaethau sy'n agored i ymgeiswyr sydd â'r cymwysterau cywir ar gyfer cyrsiau arbennig. Mae llawer o ysgoloriaethau'n cynnig manteision ychwanegol fel sicrwydd o interniaeth gyda'r sefydliad nawdd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran gyllid ar wefan Tomorrow's Engineers.


**Joshua, Peiriannydd Ymchwil**

## Ar ôl astudio

Pa lwybr bynnag a ddewiswch i faes peirianneg, unwaith y bydd gennych chi'r cymwysterau a'r sgiliau angenrheidiol wedi'u datblygu yn y gweithle, gallwch wneud cais i gofrestru'n broffesiynol gyda sefydliad peirianneg proffesiynol. Fel meddygon a chyfreithwyr, mae peirianwyr yn uchel eu parch. Dyma'ch opsiynau cofrestru: Technegydd Peirianneg (EngTech), Technegydd TGCh (ICTTech), Peiriannydd Corfforedig (IEng) neu Beiriannydd Siartredig (CEng). Ar ôl cofrestru, gallwch ddefnyddio'r llythrennau hyn ar ôl eich enw fel y gall cyflogwyr a chwsmeriaid weld eich bod chi wedi cyrraedd lefel uchel o broffesiynoldeb ym maes peirianneg.

Mae yna rai cymwysterau galwedigaethol, prentisiaethau a chyrsiau gradd a fydd yn rhoi mantais i chi wrth fynd ati i gofrestru'n broffesiynol. Defnyddiwch yr adnodd chwilio cyrsiau achrededig a'r gronfa ddata o gymwysterau Technegydd ar wefan y Cyngor Peirianneg: **www.engc.org.uk**


# Tomorrow's Engineers

## Cymryd Rhan

Mae cant a mil o gyfleoedd i gymryd rhan mewn peirianneg, dim ots ar ba lefel rydych chi! O glybiau, ffeiri ac atyniadau gwyddoniaeth a pheirianneg ar draws y DU, i gyrsiau preswyl a chystadlaethau, ewch i'r adran 'develop your skills' ar ein gwefan i gael rhagor o ysbrydoliaeth. Mae yna flogiau astudiaethau achos o swyddi go iawn, gweithgareddau, adnoddau gyrfa, cwisiau a rhagor o wybodaeth am yrfaoedd ym maes peirianneg.







**"Fy hoff beth am beirianneg yw'r amrywiaeth o heriau rydych chi'n dod ar eu traws bob dydd."**

**Craig**, Peiriannydd Gweithgynhyrchu (llwybr prentisiaeth)

**Ymunwch â ni yn:**

TomorrowsEngineers (Facebook)

TomorrowsEngineers (YouTube)

@Tomorrows_Eng (Twitter)

tomorrowsengineers (Instagram)

**www.tomorrowsengineers.org.uk**